**RHYBUDD o Benderfyniadau cyfarfod arbennig y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd yn yr Ystafell Bwyllgor ac yn rhithiol drwy Zoom ar ddydd Mawrth, 6 Ionawr 2026**

Cyhoeddir y Rhybudd hwn am 5:00pm ar ddydd Mercher, 7 Ionawr 2026. Rhaid cyflwyno unrhyw geisiadau i alw i mewn unrhyw benderfyniad i'r Prif Weithredwr erbyn dim hwyrach na 5:00pm ar ddydd Mercher, 14 Ionawr 2026. Daw'r penderfyniadau i rym (os na fydd yna gais dilys i'w galw i mewn) ar ddydd Iau,15 Ionawr 2026.

**Presennol**: Y Cynghorwyr Gary Pritchard (Arweinydd), (Cadeirydd), Neville Evans, Carwyn Jones, Dyfed Wyn Jones, Alun Roberts, Dafydd Roberts, Ieuan Williams a Robin Williams.

**Hefyd yn bresennol**: Y Cynghorwyr Douglas Fowlie, Glyn Haynes, Kenneth Hughes, Dafydd Rhys Thomas.

**Ymddiheuriadau**: Y Cynghorydd  Nicola Roberts.

(2:00 y. p. tan 2:15 y. p.)

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **4 Adroddiad gwrthwynebu ar ganlyniad yr ymgynghoriad statudol ar y cynnig i: Adleoli dysgwyr Ysgol Uwchradd Caergybi i adeilad ysgol newydd ar gyfer disgyblion 11-18 oed**<br>Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd –**<br>• **Ar ôl ystyried yr Adroddiad Gwrthwynebu, i barhau gyda'r cynnig i "adleoli dysgwyr Ysgol Uwchradd Caergybi i adeilad newydd ar gyfer disgyblion 11-18 oed."**<br>• **Cymeradwyo cyflwyno'r Adroddiad Gwrthwynebu i Weinidogion Cymru am y penderfyniad terfynol ar y cynnig i "adleoli dysgwyr Ysgol Uwchradd Caergybi i adeilad newydd ar gyfer disgyblion 11-18 oed."**<br>• **Awdurdodi swyddogion i roi rhybudd o'r penderfyniad terfynol ar ffurf llythyr penderfyniad (yn unol â'r Côd Trefniadaeth Ysgolion 011/2018) yn dilyn cymeradwyaeth gan Weinidogion Cymru.** |

| | |
|---|---|
| | • **Ymrwymo i ariannu cyfraniad y Cyngor tuag at gostau'r prosiect, fel yr amlinellir yn rhan 7 o'r Papur Cynnig gan gynnwys costau trosiannol (rhan 7.6 o'r Papur Cynnig) fydd yn weithredol o 2025/26 ymlaen.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **I fwrw ymlaen yn unol â gofynion Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'r Côd Trefniadaeth Ysgolion 011/2018** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel yr amlinellwyd yn adroddiad y Swyddog** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |